Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru

Independent Commission on Social Services in Wales

21 Rhagfyr 2010

GALWAD AM DYSTIOLAETH

Sefydlwyd y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol i ystyried y ddarpariaeth o wasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru dros y degawd nesaf ac yn enwedig sut y gall Llywodraeth y Cynulliad

- gefnogi'r gwaith o ddatblygu arferion proffesiynol ymhellach
- datblygu gwasanaethau cymdeithasol cynhwysol sy'n seiliedig ar gyfraniad yr holl bartneriaid sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol
- arwain at newid sylweddol a hynny mewn cydweithrediad rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau allweddol eraill
- sicrhau gwasanaethau cymdeithasol integredig sy'n gallu bodloni anghenion plant, pobl ifanc ac oedolion a phobl hŷn yn y ffordd fwyaf effeithiol

Mae'r Comisiwn yn gwahodd sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ar y materion a amlinellwyd uchod. Byddai o gymorth pe bai modd i’r dystiolaeth wneud y canlynol:

- Nodi cryfderau'r trefniadau presennol
- Nodi pethau penodol yn y trefniadau presennol sy’n rhwystro’r gwaith neu sy’n amharu arno
- Cynnig ffyrdd posibl o oresgyn y rhwystrau hyn, gan roi enghreifftiau.

Rydym yn awyddus i dderbyn tystiolaeth gan grŵp mor eang â phosibl a gofynnir i'r rhai sy'n derbyn y gwahoddiad dynnu sylw eraill a fyddai, o bosibl, yn dymuno cyflwyno tystiolaeth ger bron yr ymchwiliad, at hynny. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn cyflwyniadau yw 26 Chwefror 2010.

Er mwyn ein helpu i roi sylwedd i'r dystiolaeth, dylai pob cyflwyniad

- fod o dan 2,500 o eiriau mewn hyd;
- dechrau gyda chrynodeb byr o'r pwyntiau allweddol ar ffurf pwyntiau bwled;
- cael paragraffau wedi'u rhifo;
- bod ar ffurf Word gan ddefnyddio cyn lleied o liw a logos ag sy'n bosibl.

Dylid anfon copi o'r cyflwyniad drwy'r e-bost i

socialservicescommission@wales.gsi.gov.uk

Hefyd, dylid anfon copi papur at

David Rich
Ysgrifennydd
Y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru
Y 4ydd Llawr
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Caiff pob un o'r cyflwyniadau eu hystyried gan y Comisiwn yn ystod hynt ei waith. Bydd pob person neu sefydliad a gyfrannodd at y broses yn derbyn cydnabyddiaeth bod eu cyflwyniad wedi'i dderbyn.

Os hoffech dderbyn copi o adroddiad terfynol y Comisiwn (disgwylir yr adroddiad ym mis Tachwedd 2010) nodwch hynny yn eich cyflwyniad ysgrifenedig neu yn y llythyr eglurhaol.

Cyn gwneud eich cyflwyniad dylech fod yn ymwybodol

- Na ddylai deunydd sydd eisoes wedi'i gyhoeddi fod yn sail i gyflwyniad, ond gellir cyfeirio at y deunydd hwnnw o fewn memorandwm arfaethedig, ac yn yr achosion hynny dylid cynnwys copi caled o'r gwaith sydd wedi'i gyhoeddi yn unol â gofynion cyfreithiol megis hawlfraint.

- Bydd ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn cadw unrhyw dystiolaeth a gyflwynir at ddibenion gwaith y Comisiwn ac ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y pen draw. Wrth gyflwyno tystiolaeth o'r fath rydych yn cytuno i awdurdodi'r Comisiwn i ddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y dystiolaeth at ddibenion sy'n ymwneud â gwaith y Comisiwn a'ch bod yn awdurdodi Llywodraeth y Cynulliad i ddefnyddio'r wybodaeth at ddibenion sy'n ymwneud â chylch gorchwyl y Comisiwn.

- Bydd Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn cadw’r wybodaeth a gyflwynir, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dylech fod yn ymwybodol y gall fod amgylchiadau lle bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyfleu gwybodaeth i drydydd parti ar gais, er mwyn cydymffurfio â'i hymrwymiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, er enghraifft. Os oes yna wybodaeth nad ydych yn credu y dylai fod yn wybodaeth gyhoeddus, dylech dynnu sylw at yr wybodaeth honno ac esbonio at ba fath o niwed y byddai datgelu'r wybodaeth honno'n arwain. Bydd y Comisiwn a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi ystyriaeth i hynny wrth benderfynu a ddylid cyhoeddi'r wybodaeth honno neu ei datgelu ymhellach neu beidio.

- Bwriad y Comisiwn yw cyhoeddi naill ai'n rhannol neu'n llawn yr ymatebion a dderbyniwyd i'r alwad hon am dystiolaeth a hynny yn ei adroddiadau i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr awdur gyda'r ymateb, gan fod hynny'n rhoi mwy o hygrededd i'r broses o gasglu tystiolaeth Os nad ydych yn dymuno cael eich enwi fel awdur eich ymateb, dylech ysgrifennu atom i ddweud hynny.

Yr Athro Geoffrey Pearson
Cadeirydd, Ysgrifennydd i'r Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru